Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

TAFLEN FFEITHIAU CYDRADDOLDEB A CHREFYDD NEU GRED (GAN GYNNWYS DIFFYG CRED)

Cyflwyniad

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys Crefydd neu Gred fel 'nodwedd warchodedig'. Mae hyn yn golygu bod unrhyw grefydd neu gred athronyddol, neu ddiffyg crefydd neu gred, yn dod o dan y gyfraith.

O ran pobl yng Nghymru, darganfu cyfrifiad 2011: fod 57% yn dweud eu bod nhw'n Gristnogion; bod 33% heb unrhyw grefydd; bod 2% yn Fwslemiaid; bod 1% yn dweud eu bod yn dilyn crefydd 'arall' a bod 7% heb ddatgan crefydd. Yng Nghymru mae'r boblogaeth Fwdhaidd, Iddewig a Sikhaidd oll yn llai nag 1% a gwelwyd cynnydd yn y rhai heb grefydd o 14.8% yng nghyfrifiad 2001 i 25.1% yn 2011.

Y materion

I lawer o bobl sydd â chred neu ffydd mae hynny'n rhan annatod o bwy ydyn nhw; byddai llawer yn dweud mai dyna sy'n diffinio pwy ydyn nhw. Mae llawer o bobl hŷn sydd â chred yn dibynnu ar hynny am gymorth personol ac mae hefyd yn gyfrwng cysylltiad cymdeithasol. Mae llawer o grwpiau ffydd yn cynnig cyfle i gael cysylltiadau rhwng y cenedlaethau nad yw'n cael ei gynnig mewn llawer o gylchoedd eraill bywyd.

Mae'n bwysig sylweddoli y gall y rhai sy'n hawlio nad oes ganddyn nhw unrhyw grefydd fod â chredoau cadarn am fywyd, er enghraifft, efallai mai dyneiddwyr neu anffyddwyr ydyn nhw. Mae hefyd yn bwysig cofio nad oes modd cael 'un ateb sy'n addas i bawb' ym maes crefydd a

chred a rhaid cefnogi unigolion i arfer eu ffydd ac addoli (neu beidio) yn eu ffordd eu hunain.

Mae hon yn agwedd sydd yn aml yn cael ei hanwybyddu mewn gofal preswyl. I rai pobl hŷn fe fydd yr ethos crefyddol (neu anghrefyddol) yn dylanwadu ar eu penderfyniad wrth ddewis cartref gofal preswyl. Mae llawer o bobl hŷn yn colli cysylltiad yn gyflym â'u man addoli neu eu grŵp ffydd pan fyddan nhw'n mynd i ofal preswyl os nad ydyn nhw'n derbyn cefnogaeth i gadw'r cysylltiad hwnnw.

Mae'n bwysig nodi hefyd bod gan bobl hŷn yr hawl a'r gallu yn ddiweddarach mewn oes i newid i ffordd arall o feddwl neu i gred arall.

Efallai mai crefydd ydy un o'r strwythurau cymdeithasol olaf lle y gall bod yn hŷn olygu derbyn parch a statws yn naturiol. Mewn rhai diwylliannau defnyddir y term 'hynafgwr' oherwydd ei fod yn adlewyrchu'r statws dyrchafedig sy'n gysylltiedig â bod yn hŷn. Mae gan rai grwpiau ffydd ddisgwyliadau penodol o sut y dylid cefnogi pobl hŷn a rôl yr 'hynafgwyr' yn y gymdeithas.

Mae gan sawl crefydd, neu enwadau o fewn crefyddau, reolau llym am bethau fel bwyd, dillad a pherthnasoedd. Mae angen i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i bobl hŷn fod yn ymwybodol o gredoau'r gwahanol grefyddau ac fe ddylen nhw wrando ar breswylwyr, teuluoedd neu ffrindiau pan fyddan nhw'n esbonio beth sy'n bwysig am y gred, er enghraifft, ni fydd Tystion Jehova fel rheol yn dathlu penblwyddi na'r Nadolig. Bydd gan lawer o bobl hŷn gredoau crefyddol sy'n gwrthdaro â chred boblogaidd y dydd, er enghraifft rhyw y tu allan i briodas. Mae angen taro cydbwysedd mewn hawliau dynol bob amser rhwng rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd a rhyddid mynegiant.

Casgliad

I lawer o bobl mae eu crefydd neu eu cred (neu eu diffyg cred) yn gydran ganolog yn yr hunaniaeth sydd ganddyn nhw yn ddiweddarach yn eu hoes. Gall y credoau hyn fod yn ffynhonnell cysur a strwythur i'r broses o heneiddio a hefyd yn ddylanwad uniongyrchol ar iechyd, gofal cymdeithasol a gofynion diwedd oes unigolion.

Rhaid ystyried y materion hyn wrth gyflenwi gwasanaethau i bobl hŷn a rhaid inni sicrhau bod credoau crefyddol a digrefydd yn cael eu parchu.

I weld y gronfa dystiolaeth ar gyfer y daflen ffeithiau hon a rhagor o adnoddau ewch i www.olderpeoplewales.com